



Llawlyfr i Rien Clwb ar ôl ysgol Waunfawr

DATGANIAD O DDIBEN CLWB AR ÔL YSGOL WAUNFAWR

Croeso i Glwb ar ôl ysgol Waunfawr

Rydym yn mawr obeithio y bydd eich plentyn yn hapus yn y clwb ac yn elwa o'r ddarpariaeth.

Prif nod y Clwb yw cynnig gwasanaeth gwarchod rhwng 3 a 6pm. Bydd staff y Clwb yn cerdded i nôl y plant o'r ysgol am 3pm a 3.30pm. Bydd y Clwb yn agored tan 6yh o ddydd Llun i ddydd Gwener . Bydd y Clwb yn agored yn ystod tymor yr ysgol yn unig.

Rydym wedi cofrestru gydag Arolygaeth Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac yn aelod o Glybiau Plant Cymru.

Mae croeso i chi ymweld â ni cyn i'ch plentyn ddechrau yn y clwb, gofynnwn yn garedig i chi gysylltu efo Arweinydd y clwb ar y rhif ffôn symudol i drefnu hyn o flaen llaw.

Gwybodaeth Gyffredinol

Lleolir y Clwb yn
Y GANOLFAN, WAUNFAWR

Rhif ffôn y Clwb yw 07918613859

Rhif ffôn Rhian (Person Cofrestredig) 07900251419 – Croeso i chi ffonio/tecstio rhif hwn os angen gadael neges i'r Clwb.

E-bost y clwb yw

clwbarolysgolwaunfawr@gmail.com

Mae gan y Clwb dudalen ar facebook yn ogystal a byddwn yn diweddarau'r dudalen yn rheolaidd.

Oriau agor y clwb yw

Dydd Llun i Gwener 3.00 - 6.00

Mae'n rhaid sicrhau eich bod yn casglu eich plentyn erbyn 6 o'r gloch. Os y byddwch yn rhagweld y byddwch yn hwyr, cysylltwch â'r staff yn syth. Os na

fydd plentyn wedi ei gasglu o fewn chwarter awr bydd y staff yn cysylltu gyda'r personau ar y ffurflen gofrestru. Os bydd hanner awr wedi pasio cysylltir â Gweithiwr Cymdeithasol y Cyngor.

Ffioedd

£7.00 y sesiwn 3/3.30 – 5 yh

£10.50 y sesiwn 3/3.30-6 yh

Bydd angen hysbysu'r arweinydd o flaen llaw os oes angen y gwasanaeth dan 6yh.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r ffioedd yn rheolaidd.

Staff Parhaol

Arweinydd - Rachel Hanks

Cynorthwy-ydd - Anest Bryn Griffith

Cynorthwy-ydd (pan mae mwy na 16 yn mynychu): Becky Parry

Mae pob aelod o staff yn gymwys gyda lefel 2 neu uwch mewn Gofal Plant ac hefyd mae ganddynt dystysgrif cymorth cyntaf a Thystysgrif Hylendid Bwyd cyfredol.

Y Pwyllgor

Elusen yw'r Clwb sydd yn ddibynol ar rieni a chyfeillion. Bydd Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf chwech gwaith y flwyddyn. Dyma aelodau'r Pwyllgor cyfredol:

Person Cofrestredig: Rhian Roberts- Jones **Cadeirydd:** Sara Davies

Ysgrifennydd: Rhian Roberts-Jones a Mererid Llwyd **Trysorydd,** Gudrun

Janssen a Lowri Jacks- Harris **Aelodau eraill:**

Mynediad

Derbynir plant i'r Clwb rhwng 4 a 11 oed . Gofynir i chi dalu blaendal o £30 wrth gofrestru er mwyn sicrhau lle . Bydd hwn yn cael ei ddychwelyd pan fydd plentyn yn gorffen ar ôl i chi roi mis o rybudd. Ni chaiff ei ad-dalu os byddwch

yn tynnu'n ôl. Rydym yn cydymffurfio â gofynion 'Arolygaeth Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru' ynglŷn â'r nifer o blant sy'n cael mynychu'r Clwb. Gallwn gynnig gofal i hyd at 16 o blant. Bydd lefel staff yn cydymffurfio

Uwch arweinydd/Senior Playworker:	Rachel Hanks
Is-arweinydd / Assistant Playworker:	Anest Bryn Griffith Becky Parry
Person Cofrestredig/CSSIW Registered Person/ Responsible Individual:	Rhian Roberts Jones
Person Mewn Gofal CSSIW Person in Charge:	Rachel Hanks

gyda nife roed da bennir gan AGG CC. Bydd cymhareb y

staff yn 1:8

Cyfleusterau

Defnyddia'r y Clwb ddwy ystafell sef y brif neuadd a'r ystafell ddysgu. Mae cegin wedi cael ei lleoli yn yr ystafell ddysgu. Bydd y plant yn derbyn byrbryd ysgafn yn yr ystafell ddysgu. Mae toiledau wedi cael eu lleoli y drws nesaf i'r ystafell ddysgu.

Gweithgareddau

Mae'r Clwb yn cynnig gweithgareddau sydd yn rhan hanfodol i ddatblygiad y plentyn drwy roi amrywiaeth o brofiadau; er enghraifft, creffttau, mynd am dro, coginio, chwaraeon, chwarae gyda gemau cyfrifiadur a chornel tawel i wneud gwaith cartref neu ymarfer offerynnau. Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhieni a bydd cyfle i'r rhieni weld samplau o waith y plant yn rheolaidd.

Arferion

Mae staff y Clwb yn gweithio'n agos gyda rhieni i sicrhau eich bod yn cael eich cynnwys ym mhob agwedd o weithgareddau eich plentyn a bod gwybodaeth yn cael ei gadw o'i ddatblygiad. Rhoddir gwybodaeth rheolaidd i rieni ynglŷn â

gweithgareddau a ddarperir ar gyfer y plant e.e. drwy luniau, samplau o'u gwaith, murluniau a chylchlythyrau.

14.50	Staff yn cael y Clwb yn barod
15.00	Staff yn nol y plant o'r ysgol
15.15	Plant yn cyrraedd ac yn cael eu cofrestru.
15.30	Plant Cyfnod allweddol 2 yn cyrraedd
15.30-16.00	Amser byrbryd
16.00-18.00	Chwarae rhydd a gweithgareddau
18.00	Plant i dacluso a cael eu hunain yn barod i fynd adref
18.00	Clwb yn cau a staff yn cadw offer.
18.00	Staff yn gorffen gwaith

Iaith

Yr iaith sydd yn cael ei defnyddio yn y Clwb yw Cymraeg. Anogir y plant i sgwrsio a chwarae yn yr iaith Gymraeg.

Amodau a thelerau

Bydd angen i bob rhiant ddarllen ac arwyddo contract y Clwb a llenwi ffurflenni cofretru a chaniatâd. Mae gennym yr holl bolisiau sydd yn cydymffurfio gyda'r A.G.G.C.C. yn ogystal a pholisiau sydd yn cael eu cymeradwyo gan Glybiau Plant Cymru. Mae croeso i chi eu darllen yn y Clwb drwy wneud apwyntiad.

Argyfwng

Bydd staff y Clwb yn cadw rhifau ffôn rhieni ar gyfer argyfwng a chysylltir â rhiant os bydd argyfwng. Mewn argyfwng difrifol bydd y staff yn gwneud y penderfyniad o ffonio'r gwasanaethau brys.

Trefn Canmol a Chwyno

Rydym yn croesawu awgrymiadau a beirniadaeth adeiladol gan rieni / gofawyr a phlant i'n helpu ni gynnal darpariaeth o ansawdd uchel. Siaradwch gyda'r uwch

weithiwr chwarae os hoffech wneud unrhyw awgrymiadau. [Mae blwch awgrymiadau bob amser ar gael hefyd trwy fynedfa'r Clwb.]

Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd gall rhiant / gofalwr neu blentyn ei chael hi'n angenrheidiol i ddilyn y drefn gwyno. Gellir cael copi o'r drefn cwyno gan yr uwch weithiwr chwarae neu drwy ebostio'r Pwyllgor.

Ein nod yw darparu gwasanaeth o'r safon uchaf ym mhob agwedd. Croesawn eich sylwadau fel y gallwn gynnig y gwasanaeth gorau posib. Os oes gennych gŵyn neu bryder dylid ei gyfeirio un ai at arweinydd y Clwb yn y lle cyntaf neu'r Pwyllgor. Cewch gysylltu gyda AGGCC ar unrhyw adeg ynglyn a chwyn unrhyw a dyma'r manylion cyswllt isod.

Uwch Arolygydd AGGCC, Rhanbarth Gogledd Cymru, Swyddfeydd y Llywodraeth, Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno. LL31 9RZ: Rhif ffôn - 0300 790 0126

Digwyddiadau Arwyddocaol

Bydd y pwyllgor yn rhoi gwybod i swyddog AGGCC am unrhyw newidiadau/digwyddiadau arwyddocaol yn unol â'r Rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Cyfle Cyfartal

Ein bwriad fel Clwb yw sicrhau bod pob unigolyn yn cael yr un parch a chyfle. Ni fyddwn yn gwahardd plentyn beth bynnag ei genedl, rhyw, hil, lliw crefydd na gallu i'r perwyl hwn .

Anghenion Arbennig

Mae'r Clwb yn ymrwmo i roi sylw teg i bob plentyn ag anghenion arbennig. Sicrheir partneriaeth rhwng y Clwb a'r rhieni/gwarchodwyr, ac asiantaethau statudol a gwirfoddol lleol a chenedlaethol, gan gynnwys cydweithio ag unrhyw sefydliad addysgol sydd neu fydd yn darparu ar gyfer y plentyn.

Rheoli Ymddygiad

Ein nod yw darparu amgylchedd sy'n seiliedig ar ganllawiau clir, teg a chyson sy'n hyrwyddo dealltwriaeth plentyn o ymddygiad derbyniol. Mae staff yr ysgol yn gweithredu dulliau cadarnhaol o reoli ymddygiad. Bydd unrhyw ymddygiad sy'n achosi gofid yn cael ei drafod â rhieni.

Amddiffyn Plant

Nod y clwb yw amddiffyn pob plentyn dan ein gofal. 'Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod hawliau'r plentyn yn flaenoriaeth, a bod y plant yn cael eu hamddiffyn. 'Rydym yn cefnogi egwyddorion dogfen 'Hawliau Plentyn' y Cenhedloedd Unedig a Deddf Plant 1989. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant perthnasol ar Amddiffyn Plant. Rydym yn dilyn canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a mae'r staff, Pwyllgor a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol ac yn gweithio gyda'n gilydd o dan Deddf Plant 2004.

Iechyd a Diogelwch

Gwneir popeth sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau iechyd a diogelwch pawb yn y Clwb. Bydd pob plentyn yn cael ei yswirio rhag damweiniau dan gynllun yswiriant.

Os bydd clefyd heintus ar eich plentyn, mae'n ofynnol i chi lynu at gyfnodau gwahardd fel y dynodir gan yr HPA. Ewch i'r wefan yma am ragor o wybodaeth; www.hpa.org.uk.

Gwyliau

Mi fydd y clwb yn dilyn yr un tymhorau addysgu ag ysgolion Gwynedd gan gynnwys dyddiadau HMS ysgol Waunfawr, am gopi o'r calendr ewch ar safle we www.gwynedd.gov.uk. Byddwn yn rhoi gwybod i chi o flaen llaw am unrhyw newidiadau eraill.

Taliadau – Byddai'n gymorth mawr petaech yn fodlon sefydlu Debyd Uniongyrchol i dalu'r Clwb ar yr 2il ddiwrnod ym mhob mis. (Byddwn yn ebostio gyda chyfarwyddiadau pellach)

Os yw hyn yn hollol amhosibl ichi, gallwn ddod i drefniant eich bod yn talu'r Rheolwraig gan roi'r pres neu siec mewn amlen gydag enw, dyddiad a'r swm iddi ar ddechrau pob wythnos.

Ni fydd disgwyl i neb dalu am ddyddiau HMS gan y bydd y Clwb ar gau. Byddwn yn digolledu pawb am bris y sesiwn ar ddiwedd yr wythnos os byddwch wedi cofrestru a thalu am ddiwrnod HMS drwy Ddebyd Uniongyrchol.

Yn ystod cyfnod o absenoldeb oherwydd salwch tymor byr neu wyliau, disgwylir i chi dalu ffi lawn.

*****Yn ogystal rydym yn gofyn ffi o £30 gan bob teulu pan fydd eich plenty yn cychwyn.*****

Gallwch chi fel rhieni yn gallu defnyddio Talebau Gofal Plant gan eich cyflogwyr i dalu am y Gofal. Rhif cofrestru AGGCC - 140000777

Dyma fanylion Cyfrif Banc y Clwb: Enw'r Banc : Nat West. Rhif y Cyfrif: 15091937. Sort code 521039. Wnewch chi roi enw eich plentyn/plant fel cyfeirnod plis?

Adolygu'r Datganiad o Ddiben

Bydd y pwyllgor yn sicrhau fod y Datganiad hwn yn cael ei ddiweddarau yn flynyddol neu ynghynt os bydd angen ac yna yn trosglwyddo'r ddogfen gyfredol i Swyddfa AGGCC a bydd copi ar gael i'w harddangos yn y cyntedd.

